

## Cynllun Llifogydd y Rhath Llwyfan yng Ngerddi Waterloo Datganiad o Benderfyniad Mis Mehefin 2017

I gynnal mynediad trwy Erddi Waterloo, mae angen i ni gysylltu'r llwybrau a'r bont uchel newydd ar draws y muriau llifogydd newydd. Yn ochr ddeheuol y parc, mae hyn yn mynnu llwybr dyrchafedig a rampiau mynediad at y bont. Mae'r tîm dylunio tirwedd wedi ehangu'r ardal hon i ddod yn ofod nodwedd, a rhoddwyd yr enw "ardal y llwyfan" arni.

Arweiniodd yr adolygiadau o'r dyluniad y gwnaethom eu cynnal yn ystod haf 2015 â'r cyhoedd, Cyngor Caerdydd, Cadw a Chomisiwn Dylunio Cymru at ychwanegu pergola. O ystyried yr oedd nodweddion megis llwyfan band yn amlwg ar un adeg yn y gerddi, bwriedir y bydd cynnwys y llwyfan a'r pergola yn hyrwyddo ac yn cyd-fynd â dyluniad hanesyddol y parc. Daw dyluniad y pergola o ardd Edwardaidd (Tŷ Hestercombe yng Ngwlad yr Haf) ac fe'i dyluniwyd gan Gertrude Jekyll a Syr Edwin Lutyens, yr oedd y ddau ohonynt yn ddylanwadol iawn ar waith dylunio gerddi yn ystod y cyfnod. Roedd y llwyfan a'r pergola ill dau wedi'u cynnwys yn y caniatâd cynllunio cymeradwy.

Mewn ymateb i ddiddordeb diweddar y cyhoedd yn ardal y llwyfan, gwnaethom gyflwyno pedwar opsiwn mewn sesiwn galw heibio ar gyfer y cynllun ar 6 Ebrill 2017, a gwnaethom dderbyn adborth gan aelodau o'r cyhoedd. Cafwyd cefnogaeth ar gyfer yr opsiwn clawdd gwyrdd (Opsiwn 1) ac ar gyfer yr opsiwn llwyfan gyda phergola (Opsiwn 4). Roedd rhywfaint o wrthwynebiad i Opsiwn 4 gan rai aelodau o'r gymuned hefyd.

Ar ôl ystyried yr adborth ac ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid allweddol ac awdurdodau statudol, rydym wedi penderfynu parhau ag addasiad o Opsiwn 4 (y llwyfan gyda phergola).

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch dyluniad y llwyfan a'r pergola, gan gynnwys darparu man gwyrddach, meddalach, ac felly rydym wedi addasu dyluniad y llwyfan i gynnwys mwy o blanhigion a llai o balmentydd. Rydym wedi culhau lled y grisiau i'r llwyfan o'r de, sydd wedi ein galluogi i gynnwys coeden ychwanegol a llwyni. Mewn ymateb i sylwadau gan y cyhoedd, bydd dwy o'r pum coeden a fydd yn cael eu plannu yn y lleoliad hwn yn goed blodau ceirios. Mae'r ffotogyfosodiadau newydd (ynghlwm) yn dangos y newidiadau a wnaed i'r ardal hon.

Bydd y grisiau a phlatform y llwyfan wedi'u creu o slabiau carreg Pennant, a bydd y pergola hanner-crwn yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio colofnau o garreg Pennant a thrawstiau derwen sych. Mae samplau ar gael i'w harchwilio yng nghaban Gerddi Waterloo. Ni fydd strwythurau concriid yn weladwy. Bydd gwelyau plannu gyda phlanhigion synhwyraidd wedi'u dewis yn ofalus yn rhedeg trwy ac o amgylch y pergola, y gellir gweld trwyddynt i atal manau 'cudd', a bydd rhosod dringo yn ymgartrefu'n gyflym ar y colofnau carreg. Bydd y pum coeden a'r gwelyau plannu wrth ochr ddeheuol y llwyfan yn meddalu'r ardal nodwedd. Bydd seddi ar naill ochr y pergola yn darparu golygfeydd mewn gwahanol gyfeiriadau o'r ardd a'r nant.

Rydym yn cydnabod y bydd y penderfyniad hwn yn llesteirio rhai aelodau o'r gymuned leol sy'n bryderus ynghylch y newidiadau sy'n digwydd yng Ngerddi Waterloo. Rydym yn gobeithio y bydd pobl yn deall yr anawsterau a wynebwyd wrth ddod i'r penderfyniad hwn, ac nad yw hi'n bosibl cynnwys safbwyntiau pawb. Mae pryderon ynghylch sgrialwyr a defnyddwyr cyffuriau yn defnyddio'r ardal, tueddiad yr ardal i gael ei fandaleiddio a phryderon diogelwch wedi derbyn sylw manylach yn y ddogfen [Ymatebion i Adborth](#) ar dudalen we Cynllun Llifogydd y Rhath.

Cofion gorau,  
Tîm Llifogydd y Rhath

[roath@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:roath@naturalresourceswales.gov.uk), Twitter: [@natreswales](#), Facebook: [NatResWales](#)  
Cynllun Llifogydd y Rhath, Llawr 1, Cyfoeth Naturiol Cymru, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP.















